TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# NCFE CACHE Cefnogi Addysgu a Dysgu mewn Ysgolion Lefel 3



**Yn gryno**Yn dilyn ymlaen o gymhwyster Lefel 2, mae'r cwrs hwn wedi ei gynllunio i helpu'r rhai mewn ysgol i ddeall pwysigrwydd y gwaith hanfodol y maent yn ei wneud. Bydd disgwyl i chi, fel rhan o'r cwrs, gael profiad ymarferol mewn ysgol yn gweithio gyda'r Cyfnod Sylfaen neu Gyfnodau Allweddol 2-4 am o leiaf un diwrnod yr wythnos, fel gweithiwr neu wirfoddolwr – felly mae'n bwysig i chi drefnu eich lleoliad cyn cofrestru.

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer……**unrhyw un mewn swydd gymorth mewn ysgol fel cynorthwyydd dysgu neu gynorthwyydd dysgu a chymorth, neu mewn swydd gymorth wirfoddol.

**Cynnwys y cwrs**Bydd y cwrs hwn yn gyflwyniad i unedau sy'n adlewyrchu pwysigrwydd cefnogi dysgu ac addysgu. Gan gydnabod y gwaith cymorth hanfodol a wneir mewn ysgolion wrth helpu plant i gyrraedd eu potensial, mae'r cwrs hwn yn cynnig cymorth er mwyn symud ymlaen a throsglwyddo ar draws gweithlu plant o fewn ysgolion.

**Gofynion Mynediad**

Bydd angen Tystysgrif Lefel 2 Cefnogi Addysgu a Dysgu Mewn Ysgolion arnoch chi er mwyn

ymgymryd â'r cymhwyster hwn. Fodd bynnag os oes gennych chi brofiad sylweddol mewn lleoliad priodol, mae posibilrwydd o symud ymlaen yn uniongyrchol i Lefel 3. Byddwn yn trafod hyn gyda chi yn y cyfweliad.

**Gwybodaeth Ychwanegol**Os ydych chi'n gweithio mewn swydd wirfoddol, bydd angen i chi gael gwiriad DBS drwy eich lleoliad.